Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 08fed o Chwefror 2024 Yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h

1. **Presennol: /Present**
   **Cyng D Jones-Morris Cadeirydd Cyng I Ellis Is-Cadeirydd Cyng J Pierce; Cyng B. Jones; Cyng A Joyce; Cyng M Baines; Cyng J Griffiths; Cyng E Roberts; Cyng C W Owen; Mrs S E Jones Cyfieithydd ag E Jones y Clerc**
2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
   **Cyng L A James; Cyng M Lynch; a'r Cyng J Lewis**
3. **Cyflwyniad byr am Budd Cymunedol / Short presentation on Community benefit**
   **Oherwydd rhagolygon tywydd garw ni fu posib i griw Prosiect Storio Ynni Pentir Energy Storage Project fynychu am eu bod yn trafaelio o bellter**
4. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
   **Cyng A Joyce a Cyng M Baines yn aelodau/ymddiriedolwyr pwyllgor Rheoli Canolfan Penrhos**
5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 11eg o Ionawr/ January 2024**
   Derbynnwyd fel cofnodion cywir ar gynnig Cyng I Ellis gafodd ei eilio gan y Cyng J Pierce

6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
   a. Termau i'r Drwydded caniatau parcio ar Faes Parcio y Ganolfan
   Cytunwyd
   - nad oedd pwrpas rhannu y maes parcio i ddefnyddwyr y ganolfan arwahan oherwydd ni fyddai yn bosib rheoli hynny
   - Dylid cau y giat uchaf i gefn yr ysgol oherwydd nad oes dim goruchwyliaeth gan neb
   - Yn gyffredinnol teimlai y mwyfarfif fod y termau i fantais yr Ysgol a neb arall
   - Dim athrawon i barcio yno i gymeryd llefydd allai rhieni eu defnyddio
   - Angen cael barn gyfreithiol gan Gamlins'
   - Y Clerc eisioes wedi ymateb ar ran y Cyngor
   - Cyng M Baines am ymateb fel unigolyn ac ar ran y Pwyllgor Rheoli
   - Cyng I Ellis am gysylltu fel unigolyn arwahan i'r Cyngor

   b. Gwefan
   Roedd peth newidiadau wedi eu gwneud i'r Wefan yn sgil addasu a newid y Logo yn ogystal a uwch-ddyddio gwybodaeth oedd angen ei uwch-ddyddio o'r amser cyn bod aelodau o'r is-grwp gwefan wedi cael eu ethol

   c. 'Roedd yr Is-Grwp 'Cofrestr Rheoli Risg' wedi rhannu'r gwaith oedd a nhw wedi ei wneud er mwyn cael barn gweddill yr aelodau ar eu gwaith cyn ei anfon i gael ei gyfieithu.
   Mynegodd Cyng A Joyce ei farn fod angen manylu mwy wrth adnabod risg a hefyd o bosib newid y fformat. Rhannodd ei barodrwydd i ymuno a'r Is-Grwp os byddai angen.
   Cytunwyd iddo anfon sylwadau i'r Is-Grwp ag i'r Is-Grwp drafod a dod yn ol i adrodd

7. **Materion ariannol / Financial Issues**
   i. **Mantolen ariannol / Financial report**
   Roedd y fantolen wedi ei rhanu o fewn y pecyn papur i'r aelodau
   ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 31/01/2024**

Yn yr un modd 'roedd cofnodion drafft o'r ISC dwaetha wedi eu rhannu hefyd ag aeth y Clerc drwy'r cofnodion hynny

iii. **Cofrestr Risg / Risk Register**

**'Roedd diweddariad o'r gofrestr wedi ei rhannu i bob cynghorydd**

'Roedd Is Grwp wedi cyfarfod ag addasu nifer o'r risgiau a gyda'r bwriad o ail-ymweld a'r risgiau oedd wedi eu lliwio mewn coch

**Nodwyd sylwadau y Cyng A Joyce dan pwynt 6**

8. **Cynllunio / Planning**

C24/0024/25/DT Lleoliad 55 Ffordd Cynan, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2NS
Codi estyniad ochr deulawr ac estyniad unllawr yn y cefn, a newidiadau cysylltiedig.
**Dim gwrthwynebiad**

9. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**

a. **Cynlluniau llawr y Capel bach**

'Roedd cynlluniau o'r gwaith wedi eu rhannu cyn y cyfarfod a thrafodwyd pan oedd yn angenrheidiol cadw'r 'set-fawr' a'r pulpud yn eu lle gan fod y teils hynafol yn gorffen tu allan i'r 'set fawr'

Cytunwyd mae llawr laminate fyddai mwyaf addas a'g i'r Clerc ddatgan hynny wrth y contractwyr fyddai'n prisio

b. **Hyfforddiant – Jina Gwyrfai / Unllais**

Clerc wedi derbyn cais gan y Cynghorydd i holi faint yn union o ddiddordeb oedd yna gan Gynghorwyr i fynychu cyrsiau ar lein drwy **gyfrwng y gymraeg** a bod Unllais yn mynnu bod angen o leiaf 3 i ddilyn cwrs

c. **Unrhyw ddiweddariad Ganolfan Newydd a Maes Parcio**

Dim manylion pellach nag sydd wedi eu nodi dan eitem 6

d. **Materion eraill**

- **Cysgodfan Bws Bryn Ogwen**

  Dattgelwyd siom fod gwrthwynebiad wedi ei dderbyn gan unigolyn oedd yn berchen un o'r tai cyfagos ond yn byw ar Ynys-Mon 'Roedd y mater bellach yn nwylo Cyngor Gwynedd a Thrafnidiaeth Cymru gan mae nhw bellach fydd yn gosod y gysgodfan a dim Cyngor Pentir

- **Goleuadau Nadolig 2024**

  Yn sgil methu cael goleuadau Dolig yn 2023 i Penrhos i ddarparu a gosod 6 cyswllt trydannol eleni a 6 ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac archebu goleuadau pan ddeuai cyflenwad i mewn ddiwedd Mawrtgh ddechrau Ebrill

  **Cais gan y Cyng E Roberts i ystyried cael Coeden a goleuadau Nadolig yn Treborth yn 2024**

- **Cyfarfod iechyd/trafodaethau**

  Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi trefnu diwrnod agored i rannu eu cynlluniau i'r dyfodol yng Nghanolfan Coed Mawr 11eg o Fawrth rhwng 1 a 5 y.h

- **Traelia Cynghorwyr**

  Y Clerc wedi derbyn gohebiaeth bod Swyddfa Archwylio Cymru wedi negydu hefo HMRC nad yw tal traelia yn drethadwy os ceir cadarnhad gan gynghorwyr mae gweithio o'i cartref mae nhw.

  **Cytunwyd i'r Clerc i anfon e-bost yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig**

**10. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

**Cyng J Griffiths** **Problema Waen Wen**
**Dwr ar y ffordd** Bwrdd dwr bellach yn cywiro y broblem
**Lamp stryd ar 24 awr** Y clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd ond y lamp yn dal ymlaen

**Cyng B. Jones** **Cysgodfannau Ffordd Penrhos** Datgan siom am y gwrthwynebiad a gofynodd os oedd posib cysylltu hefo AS Sian Gwenllian
**Cyfarfod Unllais** Cadarnhaodd iddo fynychu y cyfarfod dwaetha ag y byddai Mel Ab Owain yn anfon templed o llythyr i gael Cynghorwyr i Gadarnhau eu bod yn gweithio o gartref

**Cyng D Jones Morris**
**Diweddariad ar Addasiadau Ffordd Penrhos**
Datgelwydd sawl pryder ynglyn a'r gwaith sydd yn mynd ymlaen ar gyfer creu llwybr llesiant amlbwrpas ar Ffordd Penrhos ble gall beiswyr a cherddwyr ei ddefnyddio Credai fod y addasiad a'r gyffordd Coed y Maes a Ffordd Penrhos yn beryg gan fod rhaid mynd i ganol y ffordd wrth droi am Bangor
Nid oedd i farn fod angen y border pridd rhwng u llwybr a'r ffordd fawr o gofio nad ydi Gwynedd yn gallu cadw ar ben eu gwaith torri gwair fel mae hi rwan
Pryd byddai y gwaith wrth fynediad Ysbyty Gwynedd yn digwydd o gofi fod yr Ysbyty wastad yn brysur
Mynegwyd pryder hefyd am safon y gwaith
Gofynwyd i'r Cyng M Baines os oedd yn bosib cael diweddariad misol o gofio fod y cymal yma ond y cyntaf o bedwar

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50